# CYLCHLYTHYR 07.03.25

## Presenoldeb

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 23–24 | 88.5% | Targed 24 – 25 | 92% | Y flwyddyn hyd yma | 89.3% |

## Cynigion i sefydlu darpariaeth feithrin

Fel y welsoch yn y llythyr anfonwyd atoch ar ebost ar 06/03/25, mae'r Cyngor yn ystyried cynigion a fyddai'n caniatáu i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ddarparu ar gyfer plant oed meithrin o fis Medi 2026.

Pe byddent yn cael eu cymeradwyo, byddai'r cynigion yn darparu addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i deuluoedd lleol, gan leihau'r angen i deithio ymhellach i ffwrdd i ysgolion eraill sydd â dosbarthiadau meithrin. I ddechrau, byddai'r ddarpariaeth yn cynnig 16 o leoedd rhan amser, gyda hyblygrwydd i ehangu yn y dyfodol yn ôl y galw, ac yn cael ei lleoli o fewn adeiladau presennol yr ysgol.

Am wybodaeth pellach, cliciwch yma.

## Gwaith cartref

Mae cwblhau gwaith cartref yn bwysig i ddisgyblion blynyddoedd 3, 4, 5, a 6 gan ei fod yn atgyfnerthu dysgu yn y dosbarth, gan eu helpu i feistroli sgiliau darllen, sillafu a rhifedd. Mae'n meithrin arferion dysgu da a rheolaeth amser, gan eu paratoi ar gyfer heriau academaidd yn y dyfodol. Yn ogystal, trwy eu cynorthwyo gyda'u gwaith cartref, rydych yn modelu eich agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu gydol oes.

## Cwis Llyfrau Diwrnod y Llyfr

I ddathlu Diwrnod y Llyfr cymerodd rhai o'n disgyblion bl 5 mewn cwis llyfrau difyr iawn draw yn Llyfrgell ganolog Caerdydd. Diolch yn fawr i'r 4 ohonynt am gynrychioli'r ysgol gyda brwdfrydedd ac angerdd.



## Trip ymholiad bl 3– 6 i Cosmeston





Cafodd dysgwyr bl 3 –6 diwrnod wrth eu boddau dydd Mawrth, 4/03, ar eu hymweliad a llynau Cosmeston. Bwriad y trip oedd ysgogi'r dysgu ar gyfer yr ymholiad nesaf, "Ein cynefin, ein cyfrifoldeb". Gallwch weld y mwynhad ar ei hwynebau – a gobeithio bydd y brwdfrydedd yma yn parhau wrth iddynt weithio ar yr ymholiad. Bydd pob dosbarth yn gwneud ymholiad gwahanol, ond bydd bob un yn seiliedig ar ddatblygu ymwybyddiaeth o a chwilfrydedd y plant tuag at ein cynefin lleol. Bydd rhai yn tyfu llysiau, eraill yn creu pyllau dwr i ddenu bywyd gwyllt, plannu hadau blodau i arsylwi ar y nifer o drychfilod sy'n ymweld â ni.

Os es gennych unrhyw offer garddio ee rhawiau, ffyrc, hadau, hen botiau, pridd/compost neu blanhigion y medrwch gynnig i gefnogi'r gwaith yma, Byddwn yn ddiolchgar iawn i dderbyn unrhyw gyfraniad.



Diolch!





## Dillad sbâr

Os ydy eich plentyn wedi benthyg dillad sbâr o'r ysgol, oes modd plîs eu danfon yn nol os gwelwch yn dda. Rydym yn brin o ddillad isaf sbâr. Diolch.

## Byrbryd



Rydym yn eich annog i ddarparu byrbryd ffrwythau i'ch plentyn ei fwyta yn ystod y bore. Fodd bynnag, rydym yn gynyddol bryderus bod disgyblion yn bwyta byrbrydau nad ydynt yn iach e.e. creision, losin, siocled. Rydym yn dilyn egwyddorion "Ysgolion Iach" a byddwn yn ceisio dros yr wythnosau nesaf i leihau faint o fyrbrydau wedi'u prosesu sy'n cael eu bwyta gan blant yn yr ysgol. Mae'r byrbrydau yma hefyd yn creu llawer o sbwriel ar dir yr ysgol ac yn yr ardal leol, ac mae'r Eco Gyngor yn brysur yn casglu sbwriel sawl gwaith yr wythnos.

Os nad oes byrbryd gyda'ch plentyn fe fydd cyflenwad bach ar gael yn yr ysgol i sicrhau bod pob dysgwr yn bwyta rhywbeth yn ystod y bore.

Beth am roi cynnig ar ddysgu enwau Cymraeg ffrwythau gyda'ch plentyn?

| | |
|---|---|
| Orange | Oren |
| Apple | Afal |
| Banana | Banana |
| Grapes | grawnwin |

| | |
|---|---|
| Kiwi | Ciwi |
| Watermelon | Melon ddŵr |
| Strawberry | Mefus |
| Pineapple | Pinafal |

# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 08*.03.25 | Eisteddfod Cylch yr Urdd, Ysgol Plasmawr<br>DYDD SADWRN – plant i gwrdd am 7:45 |
| 12.03.25 | Deintyddion o Brifysgol Caerdydd yn dod i weld Bl 6 |
| 21.03.25 | Pasbort i'r Ddinas yn cynnal gweithdy gyda Bl 6 |
| 21.03.25 | Techno camps yn gweithio gyda'r Dewiniaid Digidol |
| 04.04.25 | Farnais fflworid i DD– Bl 2 |
| 07.04.25 | Rygbi agored Bl 5 & 6 |
| 07.04.25 | Cyngerdd "Rocksteady" i rieni (pnawn) |
| 10.04.25 | Rygbi tag merched Bl 5 & 6 |
| GWYLIAU PASG 14/04 – 25/04/25<br>YSGOL YN AIL-AGOR DYDD LLUN 28/04/25 | |